



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfweliadau fideo

Canllaw i ymgeiswyr allanol ar ddefnyddio
Microsoft Teams



Darllenwch y canllaw hwn i **gyd** er mwyn sicrhau eich bod **yn barod** ar gyfer eich cyfweiliad hyd yn oed os ydych yn gyfarwydd â defnyddio **Microsoft Teams**.

Cyfweliadau Microsoft Teams

Mae'r canllaw hwn wedi'i fwriadu ar gyfer ymgeiswyr o'r tu allan i Lywodraeth Cymru.

Cynhelir cyfweliadau gan ddefnyddio Microsoft Teams, ac mae modd gwneud hyn heb osod unrhyw beth ar eich gliniadur neu gyfrifiadur personol, ond bydd angen i chi osod Ap am ddim wrth ddefnyddio ffôn clyfar neu lechen.

Os oes gennych unrhyw broblemau, cysylltwch â PriorityResourcing@llyw.cymru i gael cyfarwyddiadau pellach.

Ymuno â'r Cyfarfod / Cyfweliad


- Pan gaiff amser eich cyfweliad ei gadarnhau, byddwch yn derbyn gwahoddiad i gyfarfod Teams drwy'r cyfeiriad e-bost a nodwyd yn eich ffurflen gais, a dyma eich gwahoddiad i'r cyfweliad.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis defnyddio **Microsoft Teams** i gynnal cyfweliadau fideo, gan ei fod ar gael ar ddyfeisiadau amrywiol.
- Gan ddibynnu ar y ddyfais rydych yn ei defnyddio, bydd modd i chi naill ai ymuno â'r cyfarfod Teams drwy eich porwr neu efallai y bydd angen i chi osod yr ap Teams, sydd ar gael am ddim. Nid oes rhaid ichi gael cyfrif. I gael eglurhad llawn am sut i ymuno â chyfarfod Teams heb gyfrif cliciwch yma.

- Ar ôl i chi ymuno â'r cyfarfod, dylech fod yn gallu clywed, gweld fideo, a siarad ag unrhyw un ar y panel cyfweld. Os na fydd rhywbeth yn gweithio ar y cam hwn, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl, naill ai yn y cyfarfod os bydd hynny'n bosibl, neu drwy gysylltu â'r Rheolwr Llinell.

Yn ystod y Cyfarfod / Cyfweliad

- Unwaith y byddwch yn y cyfarfod, fe welwch nifer o reolyddion ar y sgrin sy'n eich galluogi chi i wneud pethau gwahanol a rheoli eich microffon / fideo etc. I'r rheini ohonoch nad ydych yn defnyddio Microsoft Teams yn rheolaidd, rhoddir eglurhad llawn o'r botymau a'r rheolyddion hyn ar gyfer cyfarfodydd ar y dudalen nesaf:

Unwaith y byddwch yn yr ystafell gyfarfod byddwch yn gweld y bar offer canlynol:



Gallwch droi eich camera neu ficroffon ymlaen neu eu diffodd drwy glicio ac ail-glicio'r botwm priodol yn y bar offer. I newid lefel sain eich cyfarfod, defnyddiwch y botwm lefel sain ar waelod eich sgrin ar yr ochr dde, wrth ochr y dyddiad a'r amser.

Os hoffech weld enwau'r bobl ar eich panel cyfweld, cliciwch ar y botwm 'meeting participants' / 'dangos cyfranogwyr'. Bydd yn agor mewn ffenestr arall, a gallwch adael hon ar agor yn ystod y cyfarfod os ydych yn dymuno.

Os ydych yn cael unrhyw broblemau gyda'r sain yn ystod y cyfarfod, gallwch ddefnyddio 'meeting chat' / 'dangos y sgwrs' i roi gwybod i'r panel.

I adael cyfarfod, cliciwch ar y botwm 'Leave Meeting / 'Gadael y Cyfarfod''.

Y camgymeriad mwyaf cyffredin yw bod pobl yn **tawelu'r microffon**, felly sicrhewch fod y microffon ymlaen neu ni fyddwn yn gallu eich clywed chi.

Awgrymiadau a Syniadau

Cyn eich cyfweiliad ar Microsoft Teams

- Gwnewch yn siŵr fod gennych rif ffôn cyswllt ar gyfer cadeirydd y panel.
- Profwch y dechnoleg a'r offer i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio, ymhell cyn eich cyfweiliad. Mae hyn yn cynnwys gosod yr ap Teams os oes angen gwneud hynny ar eich dyfais.
- Gwnewch yn siŵr fod gan eich offer ddigon o fatri, ac y byddwch yn cael llonydd drwy gydol y cyfweiliad. Fel arfer, mae cyfweiliadau yn para rhwng 45 a 60 munud, ac mae'n bosibl y bydd Microsoft Teams yn defnyddio llawer o fatri a hynny'n gyflym, felly gall fod yn syniad da i gadw eich peiriant wedi'i wefru yn ystod y cyfweiliad.
- Sicrhewch fod modd cynnal cyfrinachedd drwy gydol yr alwad, ac na fydd unrhyw un nad ydynt yn rhan o'r cyfweiliad yn eich clywed - mae hynny'n cynnwys pobl eraill yn eich cartref neu gydweithwyr cyfagos.
- Byddwch yn ymwybodol o'r hyn sydd y tu ôl i chi ar alwadau fideo a gwnewch yn siŵr fod digon o olau ar eich wyneb. Bydd defnyddio 'background effects'/'effeithiau cefndir' yn cuddio unrhyw beth y tu ôl i chi. Peidiwch â dewis lle sydd â golau llachar y tu ôl i chi os oes modd. Os byddwch yn dewis bod o flaen ffenestr, tynnwch y llenni / bleinds – y tywyllaf yw'r cefndir, y gorau.
- Yn y cyfweiliad, dylech wisgo fel y byddech ar gyfer cyfweiliadau mewn swyddfa. Eisteddwch neu sefwch mewn un lleoliad a pheidiwch â symud o gwmpas.
- Cyfeiriwch at y canllawiau recriwtio i ymgeiswyr (<https://gov.wales/sites/default/files/inline-documents/2019-10/external-candidate-recruitment-guidance-cy.pdf>) yn ogystal â'r disgrifiad o elfennau'r cyfweiliad yn eich gwahoddiad dros e-bost. Bydd cadeirydd y panel yn egluro'r broses lawn ar ddechrau'r cyfweiliad.
- Dylech baratoi yn yr un modd ag y byddech ar gyfer cyfweiliad wyneb yn wyneb.
- Ni fydd hyn yn wahanol i gyfweiliad arferol lle nad oes technoleg ar gael - felly dim sleidiau, dim ond cyfweiliad llafar. Os gofynnwyd i chi wneud cyflwyniad, dylech feddwl am hyn ymlaen llaw fel bod modd i'ch cyflwyniad redeg yn esmwyth.

Yn ystod y cyfweiliad

- Gwnewch yn siŵr bod digon o fatri yn eich dyfeisiau.
- Ymunwch â'r alwad tua 5 munud cyn i'r cyfweiliad ddechrau, fel bod modd i ni wneud yn siŵr bod eich cysylltiad yn gweithio.
- Gwnewch yn siŵr fod gennych botel o ddŵr wrth law i'w yfed yn ystod y cyfweiliad.
- Gwnewch yn siŵr fod eich microffon a'r camera fideo wedi'u cysylltu a'u bod wedi cael eu troi ymlaen o fewn Teams. Os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, peidiwch â chynhyrfu. Bydd y panel wedi cael gwybod beth i'w wneud i ddatrys problemau.
- Os bydd eich cysylltiad yn diflannu neu os na fydd modd cysylltu, cewch nodyn ar y sgrin yn gofyn i chi ailymuno. Os nad ydych yn gallu, yna cysylltwch â Chadeirydd y Panel.
- Os nad yw'n bosibl i chi fod mewn ystafell dawel, rhowch wybod i'r panel, fel eu bod yn gwybod y gallant ddisgwyl clywed sŵn yn y cefndir. Fodd bynnag, mae ystafell dawel yn syniad da, fel na fydd unrhyw beth yn tarfu arnoch chi, a bod modd i'r panel ganolbwyntio ar eich atebion
- Dylai aelodau'r panel gyflwyno eu hunain, cadarnhau hyd a ffurf y cyfweiliad gan ddweud y byddant yn gwneud nodiadau.
- Gofynnwch i'ch panel ailadrodd unrhyw beth sy'n aneglur, ac mae hyn yn cynnwys unrhyw gwestiynau a ofynnir i chi.
- Dylai eich panel gadarnhau pryd rydych yn debygol o glywed canlyniad eich cyfweiliad, ac os nad ydynt yn gwneud hyn, gofynnwch.

Cysylltu

Os oes gennych unrhyw bryderon o ran sut y cafodd eich cyfweiliad ei gynnal, neu unrhyw broblemau gyda thechnoleg nad oedd y panel yn ymwybodol ohonynt, dylech gysylltu â'r tîm Recriwtio ar:
DesgGymorthCydwasaethau@llyw.cymru

Os ydych yn credu i chi gael eich trin yn annheg, neu os oes gennych gŵyn am sut y cafodd y broses ei chynnal, dylech naill ai ysgrifennu at:

**Y Pennaeth Adnoddau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ**

neu e-bostio: desggymorthcydwasaethau.llyw.cymru

Os ydych yn anhapus â chanlyniad y broses gwyno gyda Llywodraeth Cymru ac yn teimlo na chadwyd at egwyddorion penodi ar sail teilyngdod drwy gystadleuaeth deg ac agored, cewch fynd â'r mater ymhellach drwy gysylltu â Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil (Civil Service Commission), 3rd Floor, 35 Great Smith Street, London SW1P 3BQ.